Saesneg isod/ English below

CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL Y PENNANT

**Cofnodion o Gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Fawrth y 10fed o Chwefror 2026 am 7.00yh yn y Ganolfan, Abergynolwyn.**

Presennol; Cyng. Elwyn Evans, Miriam Webb, Steve Lewis, Emrys Thompson, Gwynedd Roberts, Robert D Jones, Eleri Puw, Dylan Jarman, Cyng Beth Lawton (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc).

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Elwyn Evans.
2. Nodwyd nad oedd cais am gyflwyniadau gan aelod o'r cyhoedd ar fater ar yr agenda.
3. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13eg o Ionawr 2026 a**r gynnig  Cyng. Emrys Thompson a'i eilio gan Cyng Steve Lewis.
4. **Materion yn codi**

a) **Materion Priffyrdd/llwybrau**.

- Nodwyd lythyrau diweddaraf Cyngor Gwynedd yng nghyswllt cyflymder 30mya yn Abergynolwyn, a chau'r ffordd B4405 yn Talyllyn ar y 12fed o Ebrill.

**b) Safle treftadaeth** / **Celf Cyhoeddus** –ystyriwyd y diweddaraf ynglyn a'r wagen lechi, ac adroddwyd am e-bost Bet Huws 22.01.26 oedd wedi ei ddanfon i bawb, hefyd e-bost 3.02.26, a chofnodion cyfarfod LleCHi Lle Ni dros zoom gynhaliwyd 14.01.26

Mynegodd y Cynghorwyr siom fawr, ac roedd pryder cryf ac unfrydol am y sefyllfa. Roedd barn glir gan bawb fod y prisiau a nodir am y gwaith yma yn afresymol, ac yn sicr nid oedd yn rhoi gwerth am arian. Roedd neb yn hapus fod enw'r Cyngor Cymuned yn mynd i fod yn gysylltiedig efo hyn, a'r cyfan wedi costio cymaint.

Pryder mawr hefyd oedd mai Cyngor Gwynedd sydd i'w weld ym mherchnogaeth y gwaith efo'r prosiect erbyn hyn.  Y dealltwriaeth o'r dechrau gyda'r prosiect yma oedd mai Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant oedd yn arwain, ac rwan mae'r cyfan i'w weld wedi ei dynnu oddiar y Cyngor Cymuned. Nodwyd fod y Cyngor Cymuned wedi neilltuo cryn dipyn o amser i'r prosiect, ac roedd teimlad fod yna gamarwain a chamddealltwriaeth. Nodwyd hefyd mai y Cyngor Cymuned wnaeth ofyn yn swyddogol i'r Ganolfan yn Abergynolwyn am gael caniatad i roi y wagen lechi yn y safle y cytunwyd, ac yn y dyfodol byddai rhaid iddynt gysylltu yn uniongyrchol gyda'r Ganolfan.
Yng ngwyneb hyn, penderfynwyd nad yw y Cyngor Cymuned yn fodlon gwneud unrhyw waith cynnal a chadw fyddai ei angen ar hyn i'r dyfodol, na bod yn gyfrifol am yswiriant ayyb. Hefyd, o ran cyflwyno cais cynllunio, nodwyd na allai y Cyngor Cymuned roi sylwadau a chytundeb i fwrw ymlaen oherwydd yr amgylchiadau a amlinellir uchod. Gofynnwyd hefyd paham nad oes son am y murlun ar wal y Ganolfan, sef beth y cytunwyd fel rhan o'r prosiect.

**c) Arwyddion y cae chwarae –** roedd dwy arwydd 'DIM CWN YN Y CAE CHWARAE' i law gan Cyng Elwyn Evans, a diolchwyd yn fawr iawn iddo am drefnu hyn

**d) Cynllun trafnidiaeth cymunedol** – nodwyd gofnodion diweddaraf TAITH gyfarfu yn Llyfrgell Tywyn Dydd Llun 19eg Ionawr. Roedd yn ymddangos fod pob dim yn mynd ymlaen yn iawn gyda'r cynllun.

**e) Coeden yn Heol y Dwr –** Roedd Cyng Gwynedd Roberts wedi cyfarfod Rhydian Roberts o'r Parc Cenedlaethol i drafod yr angen i roi sylw i goed i'w torri yn wal yr afon, a hefyd problem Ash dieback. Darllenwyd e-bost Rhydian oedd yn rhoi caniatad i wneud y gwaith, ond osgoi cyfnod nythu (Ebrill i Awst). Enwebwyd 4 o gontractwyr lleol y gallai'r Clerc gysylltu a hwy, a gwelwyd y dylid trefnu hyn erbyn tua mis Hydref. Cytunodd Cyng Gwynedd Roberts i'w cyfarfod, a diolchwyd iddo. Roedd angen chipio y coed, a chadw y coed tan.

f) **Bwlch yn y wal rhwng Ty'n Ddol a hen bont Ty'n y Fach** – roedd Cyng Robert Jones wedi cyfarfod Sion Wilkes i drafod. Nid oedd hon yn wal gynnal, felly cyfrifoldeb y tirfeddiannwr ydoedd. Addawodd Cyng Robert Jones ymdrin a hyn ymhellach.

6. **Materion Cynllunio/Trwyddedu**

Roedd un cais i law, sef **Cais Trwydded Eiddo /Premises Licence – Riverside Guest House, Abergynolwyn –** roedd wedi ei ddanfon allan i bawb 19.01.26, ac roedd angen ymateb i Gyngor Gwynedd erbyn 12.02.26.

Trafodwyd yn fanwl, a daethpwyd i'r casgliad na ellir cefnogi rhoi caniatad i chwarae cerddoriaeth tu allan, oherwydd roedd rhaid rhoi ystyriaeth i'r pryderon am sŵn, a'r effaith ar fwyniant preswylwyr cyfagos. Hefyd roedd parcio yn broblem y dylid ystyried. O ran cyflenwi alcohol, gwelwyd fod gwerthu rhwng 8am a 11pm bob dydd yn gais afresymol, ac y dylid cyfyngu hyn i rhwng hanner dydd a 9pm.

Codwyd cwestiwn hefyd beth yw'r bwriad yn y tymor hir, o gofio mai 5 ystafell wely yn unig sydd yno yn ol beth yr oedd pawb ar ddeall.

7. **Materion Cyllid.**

a) Nodwyd balansau y cyfrifon, sef Cyfri Cyfredol £4710.66 a Cyfri Cadw £14,067.71.

   Roedd llythyr caredig o ddiolch i law am y cyfraniad i Eisteddfod Flynyddol Abergynolwyn.

   Yn dilyn cais i Marged Gwenllian o'r Urdd, darllenwyd yr ymateb yn rhoi manylion llawn gweithgarwch yn ardal Dysynni.

b) **Anfonebau i'w talu**

Ar gynnig Cyng Miriam Webb a'i eilio gan Cyng Dylan Jarman, cytunwyd i dalu'r canlynol;

- **Jones & Jones, Bryncrug** – cynnal a chadw llwybrau ayyb, a darparu un goeden Nadolig - £918.00. ( Nodwyd fod y gwaith yma ar lwybrau 33,4,3,19,43,5,20, a 10, a bod angen sicrhau fod y gwaith yma wedi ei wneud ymhob achos, a sicrhau hyn mewn da bryd erbyn flwyddyn nesaf.)

  Hefyd cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi trefnu ad-daliad am y gwaith llwybrau gan Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd yn ol yr arfer

- **Signcreation, Dolgellau** (2 arwydd caw chwarae) - £80

- Yn dilyn trafodaeth, cytunodd pob un o'r Cynghorwyr i hawlio £156 o gostau am y flwyddyn 2025-26, a byddai'r Clerc yn trefnu hyn. Arwyddwyd y datganiadau gan bawb, a chadarnhwyd y byddai rhain yn cael eu rhoi ar y wefan.

c) **Ceisiadau am arian**

Nid oedd ceisiadau i law.

**8.Adroddiad Cynghorydd Beth Lawton (Cyngor Gwynedd)**

Adroddodd Cyng Beth Lawton am ei gwaith o fewn y ward, a'r arwyddion glanhau baw cŵn oedd ganddi ar gyfer yr ardal.

Cadarnhawyd godi treth Cyngor Gwynedd 4.9%.

Gofynnodd am farn pawb am y dreth twristiaeth, ac roedd pawb yn feirniadol o'r bwriad o gofio y pwysau ar ddarparwyr llety yn barod, ac y byddai yn effeithio ar y nifer fydd yn dod i'r ardal. Hefyd angen gwybod beth a geir am yr arian.

**9..Adroddiad Cyng. Elwyn Evans , cynrychiolydd Un Llais Cymru.**

Adroddwyd am nifer fawr o gyfarfodydd, sef y Pwyllgor Gwaith, Pwyllgor Polisi a'r Pwyllgor Ardal a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar yr 21ain Ionawr. Soniodd am waith U LL Cymru, yr ad-drefnu yn y Swyddfa, y cyfansoddiad newydd a'r grantiau sydd ar gael.

10..**Gohebiaeth.**

a) **Materion mynwent Llanfihangel y Pennant** - Darllenwyd ymateb pellach gan Paul Inman o'r Eglwys , (Cylch Bro Ystumanner) yn dilyn cytuno ar y gost o £320 a TAW ar gyfer cost llechi to y lych gate. Roedd y gwaith mewn llaw.

b) **Nodwyd sesiynau hyfforddiant Un Llais Cymru,** a'r cyrsiau oedd ar y gweill, ac hefyd y cyfle i wneud nifer o gyrsiau yn rhad ac am ddim.

**11. Unrhyw fater arall.**

a) Roedd angen sylw i gamfa ar lwybr 16, sef i fynny am Llechwedd, gyferbyn a'r Eglwys yn Llanfihangel y Pennant (hyn wedi ei godi o'r blaen) . Hefyd roedd angen sylw i'r bont ym mhenuchaf Llyn Talyllyn (Pont Rhyd y Fawnog) a gwneud arolwg o'r llwybr o'r Llwyn i gyferiad Penbont.
b) Roedd gwaith ochr ffordd efo trafferthion dwr rhwng Tynynbryn a Llanllwyda, a hefyd ger y Gesail angen ei gwbwlhau, ac roedd angen amserlen bendant.
c) Diolchwyd yn fawr iawn i'r Cyng Dylan Jarman am ei gyfraniad i'r gwaith o osod y meinciau a'r potiau blodau.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; Y GANOLFAN, ABERGYNOLWYN NOS FAWRTH 10fed Mawrth 2026, 7.00y.h.**

**.....................................................................................................................................**

**Minutes of a Meeting of the Council held on Tuesday 10th February 2026 at 7.00pm at the Ganolfan, Abergynolwyn**

**Present:** Cllr. Elwyn Evans, Miriam Webb, Steve Lewis, Emrys Thompson, Gwynedd Roberts, Robert D. Jones, Eleri Puw, Dylan Jarman, Cllr. Beth Lawton (Gwynedd Council) and Huw T. Jones (Clerk).

1. A warm welcome was extended to everyone by the Chair, Elwyn Evans.
2. It was noted that no request had been received from any member of the public to address the meeting on an agenda item.
3. The minutes of the meeting held on 13th January 2026 were confirmed on the proposal of Cllr. Emrys Thompson, seconded by Cllr. Steve Lewis.
4. **Matters Arising**

   a) **Highways/Footpaths**

   - The latest letters from Gwynedd Council were noted regarding the 30mph speed limit in Abergynolwyn and the closure of the B4405 road at Talyllyn on 12th April.

   b) **Heritage Site / Public Art**
   The latest developments regarding the slate wagon were considered, and Bet Huws' emails dated 22.01.26 (sent to all) and 03.02.26 were reported, along with the minutes of the LleCHi Lle Ni Zoom meeting held on 14.01.26.

   Councillors expressed great disappointment and strong, unanimous concern about the situation. There was a clear view that the prices quoted for this work were unreasonable and certainly did not represent value for money. No one was happy that the Community Council's name would be associated with this, given the high overall cost.

   There was also serious concern that Gwynedd Council now appeared to have ownership of the project. The original understanding was that Llanfihangel y Pennant Community Council would lead the project, but it now appeared to have been taken away from the Community Council. It was noted that the Community Council had devoted considerable time to the project, and there was a feeling of being misled and of misunderstanding. It was also noted that the Community Council had formally requested permission from the Centre in Abergynolwyn to place the slate wagon at the agreed site, and that in future direct contact would need to be made with the Centre.

   In light of this, it was decided that the Community Council would not be willing to undertake any future maintenance work required, nor be responsible for insurance, etc. Furthermore, in relation to submitting a planning application, it was noted that the Community Council could not provide comments or agreement to proceed due to the circumstances outlined above. It was also asked why there was no mention of the mural on the wall of the Centre, which had been agreed as part of the project.

   c) **Playground Signs**
   Two "NO DOGS IN THE PLAYGROUND" signs had been obtained by Cllr. Elwyn Evans, and he was warmly thanked for arranging this.

d) **Community Transport Scheme**
The latest TAITH meeting minutes (meeting held at Tywyn Library on Monday 19th January) were noted. It appeared that everything was progressing well with the scheme.

e) **Tree on Heol y Dŵr**
Cllr. Gwynedd Roberts had met with Rhydian Roberts from the National Park to discuss the need to address trees requiring cutting along the river wall, as well as the issue of Ash dieback. An email from Rhydian granting permission to carry out the work was read, provided that the nesting period (April to August) was avoided. Four local contractors were nominated for the Clerk to contact, and it was considered that the work should be arranged around October. Cllr. Gwynedd Roberts agreed to meet with them and was thanked. The trees would need to be chipped, and the timber retained.

f) **Gap in the Wall between Ty'n Ddol and the old Ty'n y Fach bridge**
Cllr. Robert Jones had met with Sion Wilkes to discuss the matter. As this was not a retaining wall, it was the landowner's responsibility. Cllr. Robert Jones undertook to pursue the matter further.

5. **Planning/Licensing Matters**

One application had been received: Premises Licence Application – Riverside Guest House, Abergynolwyn – circulated to all on 19.01.26, with a response required to Gwynedd Council by 12.02.26.

This was discussed in detail, and it was concluded that permission to play music outdoors could not be supported, due to the need to consider concerns about noise and the impact on neighbouring residents' enjoyment. Parking was also identified as an issue requiring consideration.

In terms of the supply of alcohol, it was considered that sales between 8am and 11pm daily was unreasonable, and that this should be limited to between 12 noon and 9pm.

A question was also raised about the long-term intention, given that there are understood to be only five bedrooms at the property.

6. **Financial Matters**

a) Account balances were noted: Current Account £4,710.66 and Savings Account £14,067.71.

A kind letter of thanks had been received for the contribution towards the Abergynolwyn Annual Eisteddfod.

Following an enquiry to Marged Gwenllian of the Urdd, her response giving full details of activities in the Dysynni area was read.

b) **Invoices for Payment**
On the proposal of Cllr. Miriam Webb, seconded by Cllr. Dylan Jarman, it was agreed to pay the following:

- Jones & Jones, Bryncrug – maintenance of footpaths etc., and provision of one Christmas tree – £918.00.
  (It was noted that this work related to footpaths 33, 4, 3, 19, 43, 5, 20 and 10, and that it was necessary to ensure that the work had been completed in each case, and to ensure this in good time by next year.)

The Clerk also confirmed that he had arranged reimbursement for the footpath work from Gwynedd Council's Highways Department as usual.

- Signcreation, Dolgellau (2 playground signs) – £80.
- Following discussion, all Councillors agreed to claim £156 in expenses for the year 2025–26, and the Clerk would arrange this. The declarations were signed by all, and it was confirmed that these would be published on the website.

c) **Grant Applications**
No applications had been received.

7. **Report by Cllr. Beth Lawton (Gwynedd Council)**

Cllr. Beth Lawton reported on her work within the ward and on the dog fouling signs she had available for the area.

The 4.9% increase in Gwynedd Council tax was confirmed.

She asked for members' views on the tourism tax, and all were critical of the proposal, given the existing pressures on accommodation providers and the likely impact on visitor numbers. There was also a need to know what would be received in return for the revenue raised.

8. **Report by Cllr. Elwyn Evans, One Voice Wales Representative**

A large number of meetings were reported, namely the Executive Committee, Policy Committee, Area Committee, and the Annual General Meeting on 21st January. He spoke about the work of One Voice Wales, office reorganisation, the new constitution, and the grants available.

9. **Correspondence**

a) **Llanfihangel y Pennant Cemetery Matters**
A further response was read from Paul Inman of the Church (Bro Ystumanner Ministry Area), following agreement on the cost of £320 plus VAT for slate for the lych gate roof. The work was in hand.

b) One Voice Wales training sessions and forthcoming courses were noted, as well as the opportunity to undertake a number of courses free of charge.

11. **Any Other Business**

a) Attention was required to a stile on footpath 16 leading up to Llechwedd, opposite the Church in Llanfihangel y Pennant (this had been raised previously). Attention was also needed for the bridge at the upper end of Talyllyn Lake (Pont Rhyd y Fawnog) and for a survey of the path from Llwyn to Penbont.

b) Roadside works with water drainage issues between Tynynbryn and Llanllwyda, and near Gesail, required completion, and a definite timetable was needed.

c) Sincere thanks were extended to Cllr. Dylan Jarman for his contribution to the installation of benches and flower pots in Abergynolwyn.

**DATE OF NEXT MEETING:**
Y Ganolfan, Abergynolwyn – Tuesday 10th March 2026, 7.00pm.